

Jane Hutt AC / AM
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Minister for Finance and Government Business



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P-1501-15

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

11 Ionawr 2016

Annwyl Jocelyn,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 17 Tachwedd ynghylch ystyriaeth y Pwyllgor o'r trefniadau ar gyfer craffu ar y gyllideb ac effaith rôl y Pwyllgor, fel rhan o'i etifeddiaeth.

Mae bod yn agored ac yn dryloyw wraidd gwaith Llywodraeth Cymru ac fe fuont yn ystyriaethau canolog yn ystod y weinyddiaeth hon yng nghyd-destun proses y gyllideb, gan gynnwys cefnogi craffu effeithiol. Mae cyfnod craffu ar broses y Gyllideb yn gam pwysig o ran profi a datblygu ein cynigion ar gyfer y gyllideb ac yn elfen hanfodol o'n hatebolrwydd democrataidd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo drwy gydol y cyfnod hwn i wella ein dull o ymdrin â chyllidebau a'r ffordd y cyflwynir deunydd y gyllideb. Gan weithio'n adeiladol gyda'r Pwyllgorau Cyllid, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol yn y cyswllt hwn dros y pum mlynedd diwethaf, ac rwyf wedi ymrwymo i barhau i chwilio am gyfleoedd i wella proses y gyllideb.

Un o'r nodweddion sydd wedi diffinio'r gwaith o graffu ar y gyllideb yn y tymor hwn fu'r cefndir ariannol heriol. Yn wyneb y gostyngiad mewn cyllidebau, mae'n bwysicach nag erioed inni wario adnoddau cyhoeddus mewn ffordd mor effeithiol â phosibl. Yn y cyd-destun hwn, croesewais gefnogaeth y Pwyllgor yn gynnar yn y weinyddiaeth hon i'n cynnig i ddiwygio Cynnig Llywodraeth Cymru ar y Gyllideb Flynyddol ac i gyflwyno terfyn gwariant unigol ar gyfer Llywodraeth Cymru, yn lle cyfansymiau rheoli cyllidebau unigol ar gyfer pob Prif Grŵp Gwariant. Mae'r cam hwn wedi cynyddu ein hyblygrwydd i reoli adnoddau yn fwy effeithiol ac, yn bwysicach, i alinio cyllid â'n blaenoriaethau, yn enwedig tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae datblygu Protocol y Gyllideb wedi hynny hefyd wedi helpu i gadw tryloywder ac atebolrwydd mewn perthynas â'r arferion rheoli ariannol yn ystod y flwyddyn.

Rhan annatod o'n paratodau ar gyfer y gyllideb yw tynnu ar yr holl dystiolaeth sydd ar gael er mwyn sicrhau ein bod yn gwario ein hadnoddau ar yr ymyriadau hynny sy'n sicrhau'r manteision mwyaf posibl ac sy'n cefnogi cyflawni ein canlyniadau. Mae gwrandio ar farn rhanddeiliaid am y blaenoriaethau a'r gwasanaethau sydd bwysicaf iddynt yn rhan bwysig o'n ffordd o fynd ati. Yn ystod fy Nheithiau ar y Gyllideb Flynyddol, rwyf wedi siarad â'r rhai y bydd ein penderfyniadau ar y gyllideb yn effeithio arnynt, gan gynnwys darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau, am yr heriau sy'n ein hwynebu wrth reoli ein blaenoriaethau o fewn cyllideb sy'n parhau i ostwng mewn termau real. Yn y cyddestun hwn, mae gwaith y Pwyllgor Cyllid wrth graffu ar y gyllideb ymlaen llaw ac ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi helpu i lywio ein hystyriaeth o flaenoriaethau yn ogystal â'n gwaith o baratoi am y gyllideb.

Tynnwyd sylw at nifer o themâu wrth graffu ar y gyllideb dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r rhain wedi ymdrin ag amrywiaeth eang o faterion, megis y galw am fwy o fanylder am y costau sy'n gysylltiedig â rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth, pwysigrwydd gwariant ataliol a chymryd camau yn awr i atal problemau rhag codi neu i atal problemau presennol rhag gwaethygu a'r angen i ddeall effaith ein penderfyniadau ariannu, a sut y mae ein cyllidebau a'n cynlluniau gwario'n ategu ein blaenoriaethau. Yn unol â hyn, rydym wedi cymryd nifer o gamau mewn Cyllidebau olynol i fynd i'r afael â'r materion hyn a rhoi mwy o eglurder a gwybodaeth i helpu i lywio gwaith craffu. Wrth i ni barhau â'n gwaith, byddwn yn anelu at adeiladu ar y mesurau hyn mewn cyllidebau yn y dyfodol.

Wrth edrych i'r dyfodol, bydd nifer o ffactorau pwysig yn dylanwadu ar y ffordd rydym yn mynd ati mewn perthynas â phrosesau cyllidebol a chraffu. Yn fy llythyr dyddiedig 30 Tachwedd mewn ymateb i waith craffu'r Pwyllgor Cyllid o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, tynnais sylw at sut y mae fframwaith y Ddeddf eisoes wedi dylanwadu arnom wrth inni baratoi ar gyfer y gyllideb a llunio ein cynlluniau gwario drafft ar gyfer 2016-17. Pan roddais dystiolaeth i'r Pwyllgor ar Gyllideb Ddrafft 2016-17 y mis diwethaf, ymhelaethais ymhellach ar hyn ac mae manylion pellach am ein dull gweithredu wedi'i nodi yn naratif Cyllideb Ddrafft 2016-17 a gyhoeddwyd fel rhan o ddogfennau'r gyllideb.

O ran priodoldeb yr amserlenni ar gyfer y broses, mae'r amserlenni presennol ar gyfer craffu, ynghyd â nifer o faterion eraill, yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o ddiwygio ein gweithdrefnau cyllidebol, yng ngoleuni ein cyfrifoldebau cyllidol newydd o dan Ddeddf 2014. Un o'r blaenoriaethau pwysicaf mewn unrhyw gylch cyllidebol yw darparu sicrwydd cynnar ynghylch cyllid i'r sefydliadau yr ydym yn eu hariannu. Mewn blwyddyn arferol ar gyfer y gyllideb, rydym yn anelu at gwblhau'r broses gyllidebol erbyn y Nadolig er mwyn cyflawni hyn. Mae cydbwysio hyn â'r angen i sicrhau bod gan y Cynulliad y cyfle i graffu ar ein cynlluniau fel rheol yn golygu cyhoeddi ein cynlluniau ar ddechrau tymor yr Hydref. Er hynny, mae hyn yn peri heriau o ran cwblhau gwaith craffu o fewn un tymor. Mae'r cyfyngiad hwn yn cael ei gymhlethu ymhellach gan amseriad Datganiad yr Hydref mewn perthynas â chynnig y Gyllideb Derfynol, sy'n golygu yn aml fod ein cynlluniau cyllidebol wedi dyddio cyn i'r Cynulliad gytuno arnynt. Mae hwn yn gyfyngiad yr wyf wedi tynnu sylw ato o'r blaen ac mae'r heriau amseru yn faterion pwysig y mae angen eu hystyried fel rhan o'r gweithdrefnau cyllidebol diwygiedig.

Mae ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i Brosesau Arferion Gorau ar gyfer y Gyllideb yn rhan annatod o ystyriaethau hyn, ac rydym yn gweithio'n agos â swyddogion yng Nghomisiwn y Cynulliad i ddatblygu ein cynigion gan gynnwys ystyried awgrymiadau'r Pwyllgor o broses dau gam ar gyfer y gyllideb. Gan y bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar ymarfer cynllunio'r gyllideb am 2018 -19, yn unol â rhoi'r pwerau cyllidol newydd ar waith, caiff union natur y diwygiadau ei datblygu a'i chytuno gan y Pumed Cynulliad.

Gobeithio bod hyn o gymorth.

A handwritten signature in black ink that reads "Jane". The signature is written in a cursive style with a horizontal line above the first few letters.

Jane Hutt AC / AM

Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Minister for Finance and Government Business